

**Cynllun Datblygu Lleol (Newydd) Parc
Cenedlaethol Arfordir Penfro – Y Strategaeth a
Ffefrir 2015-2031 (Drafft)**

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Table of Contents

Cyflwyniad.....	2
Y Weledigaeth ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	3
Polisiau'r Cynllun Datblygu Lleol.....	4
Polisiau Strategol.....	4
Polisi 2 Canolfan Gwasanaethau Lleol a Thwristiaeth	4
Dinbych-y-pysgod (Haen 2) (Polisi Strategaeth).....	4
Polisi 3 Canolfan Leol Trefdraeth (Haen 3) (Polisi Strategaeth).....	4
Polisi 4 Canolfan Leol Saundersfoot (Haen 3) (Polisi Strategaeth).....	4
Polisi 5 Canolfan Leol Tyddewi (Haen 3) (Polisi Strategaeth).....	4
Polisi 6 Canolfannau Gwledig (Haen 4) (Polisi Strategaeth)	4
Polisi 7 Cefn Gwlad (Haen 5) (Polisi Strategaeth).....	4
Polisi 8 Rhinweddau Arbennig (Polisi Strategaeth).....	5
Polisi 20 Graddfa Twf (Polisi Strategaeth).....	5
Polisi 29 Dylunio Cynaliadwy (Polisi Strategaeth).....	5
Polisi 33 Ynni Adnewyddadwy (Polisi Strategaeth)	5
Polisi 34 Llifogydd a Llifogydd o'r Môr (Polisi Strategaeth).....	6
Polisi 35 Economi Ymwelwyr (Polisi Strategaeth).....	6
Polisi 42 Safleoedd Cyflogaeth ac Unedau Byw/Gwaith (Polisi Strategaeth)	6
Polisi 44 Tai (Polisi Strategaeth).....	6
Policy 45 Tai Fforddiadwy (Polisi Strategaeth).....	6
Polisi 48 Cyfleusterau Cymunedol a Gofynion Seilwaith (Polisi Strategaeth)	7
Polisi 49 Manwerthu yn y Parc Cenedlaethol (Polisi Strategaeth)	8
Polisi 52 Trafnidiaeth Gynaliadwy (Polisi Strategaeth)	8
Polisiau Manwl.....	8
Safleoedd Ymgeisiol.....	9
Monitro Blynyddol ac Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol.....	10
Canllawiau Cynllunio Atodol.....	10

Cyflwyniad

Bydd y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn llywio datblygiadau a'r defnydd a wneir o'r tir yn y Parc Cenedlaethol hyd at y flwyddyn 2031.

Roedd monitro'r Cynllun Datblygu Lleol cyfredol yn dangos bod angen adolygiad llawn o'r Cynllun cyfredol. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys prif strategaethau cynllunio a datblygu Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro hyd at y flwyddyn 2031, fydd yn

ceisio mynd i'r afael â materion allweddol, gan gynnwys: Ensuring government planning policy which is unique to National Parks is appropriately applied.

- Sicrhau bod polisiau cynllunio y llywodraeth sy'n unigryw i'r Parciau Cenedlaethol yn cael eu gweithredu yn briodol.
- Mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd, a rheoli ac addasu i newid yn yr hinsawdd.
- Blaenoriaethu rhyddhau tir i ddiwallu anghenion cymunedau lleol.
- Cynnal ac arallgyfeirio'r economi cefn gwlad a'r economi ymwelwyr.
- Mynd i'r afael ag anghenion tai fforddiadwy.
- Diogelu a gwella'r Canolfannau lleol.

Fel rhan o hyn, bydd y Cynllun yn clustnodi darnau o dir lle bydd adeiladu yn cael ei ganiatáu a lle na fydd yn cael ei ganiatáu, yn ogystal â gosod allan y fframwaith cynllunio y bydd rhaid ei ystyried wrth benderfynu ar bob cais cynllunio ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Bydd safleoedd yn cael eu dangos yn y Cynllun Datblygu Lleol Adneuo.

Mae'r Strategaeth a Ffeirir a'r dogfennau cysylltiedig ar gael i gael golwg arnynt a'u lawrlwytho yn: xxx noder cyfeiriad y we pan fydd yn barod.

Nodyn: - mae'r ddogfen hon yn grynodeb dwyieithog o'r Strategaeth a Ffeirir ac felly ni ddylid ei defnyddio at ddibenion cynllunio. Mae'r strategaeth a ffeirir yn amlinellu strategaeth gyffredinol y Cynllun Datblygu Lleol, a'r Cynllun Adneuo yw'r Cynllun drafft manwl terfynol.

Y Weledigaeth ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Mae datblygiadau yn parhau i barchu, a lle bo'n bosibl, yn parhau i wella rhinweddau arbennig y Parc. Mae hyn yn golygu na all poblogaeth y Parc gynyddu'n sylweddol. Mae'r cyfleoedd prin i ddatblygu all fod ar gael yn gyfleoedd i ddatblygiadau sy'n cyfrannu fwyaf at gynnal cymunedau lleol lle bynnag y bo'n bosibl a lle bo hynny'n cydfynd â dibenion statudol y Parc Cenedlaethol.

Mae Dinbych-y-pysgod, Trefdraeth, Saundersfoot, Tyddewi a nifer fawr o'r cymunedau mwy gwledig yn y Parc Cenedlaethol wedi gweld twf ychwanegol mewn tai er mwyn hwyluso codi tai fforddiadwy i gymunedau'r Parc Cenedlaethol. Mae datblygiadau cyflogaeth wedi'u canoli yng Nghanolffannau'r Cynllun (gweler y paragraff nesaf). Mae cefn gwlad y Parc Cenedlaethol yn parhau i weld nifer fawr o amrywiol fuddiannau a gweithgareddau gan gynnwys cynlluniau arallgyfeirio ar ffermydd ac addasu adeiladau at wahanol ddefnydd ynghyd â rhywfaint o gyfleoedd i godi tai.

Mae datblygiadau newydd wedi'u cyfeirio yn bennaf at gymunedau sydd â chyswllt cyfleus â rhwydwaith o drafnidaeth gyhoeddus effaith-isel a fforddiadwy, h.y. Canolfannau'r Cynllun. Yn arwyddocaol, mae rhwydweithiau beicio a hawliau tramwy cyhoeddus sydd wedi'u gwella'n sylweddol yn fodd o roi dulliau teithio glân a hygyrch i'n cymunedau yn ogystal â hyrwyddo mwy o weithgareddau hamdden.

Yn yr un modd â gweddill gwledydd Prydain, mae'r Parc wedi bod yn addasu i newid yn yr hinsawdd. Mae datblygiadau yn fwy cynaliadwy yn eu dyluniad. Gwelir pensaernïaeth gwerinol a brodorol unigryw yn y datblygiadau newydd sy'n cyfuno'r gorau o'r hen a'r gorau o'r newydd. Mae cynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn fwy poblogaidd. Mae datblygiadau wedi'u cyfeirio oddi wrth ardaloedd sydd neu fydd yn dueddol o ddiodef gorlifo neu lifogydd.

Mae'r Parc yn elwa o fod yn gyrchfan cymdeithasol gynhwysol heb ei ail i ymwelwyr gydol y flwyddyn ac yn Barc sy'n canolbwyntio ar ei gryfderau: cyfleusterau hamdden morol ac arfordirol effaith-isel, mynediad i gefn gwlad sy'n gyfoethog mewn bywyd gwyllt, a heddwch a llonyddwch.

Polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys y 19 o bolisïau strategol canlynol fydd yn cyflawni'r Weledigaeth ac yn cael eu hategu gan bolisïau mwy manwl y Cynllun.

Polisïau Strategol

Polisi 1 Dibenion a Dyletswydd y Parc Cenedlaethol

Dibenion a Dyletswydd y Parc Cenedlaethol (Polisi Strategaeth - trosfwaol)

Mae un polisi cyffredinol yn y Cynllun sy'n delio â dibenion a dyletswydd y Parc Cenedlaethol.

Yn ôl y gyfraith, rhaid i'r Cynllun warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc a hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig y Parc. O gofio bod y Parc yn dirwedd fyw gyda phoblogaeth breswyl, wrth fwrw ymlaen â'r dibenion mae'n ddyletswydd hefyd i feithrin lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol.

Polisi 2 Canolfan Gwasanaethau Lleol a Thwristiaeth

Dinbych-y-pysgod (Haen 2) (Polisi Strategaeth)

Polisi 3 Canolfan Leol Trefdraeth (Haen 3) (Polisi Strategaeth)

Polisi 4 Canolfan Leol Saundersfoot (Haen 3) (Polisi Strategaeth)

Polisi 5 Canolfan Leol Tyddewi (Haen 3) (Polisi Strategaeth)

Polisi 6 Canolfannau Gwledig (Haen 4) (Polisi Strategaeth)

Polisi 7 Cefn Gwlad (Haen 5) (Polisi Strategaeth)

Mae'r strategaeth ofodol yn cyfeirio twf i'r prif Ganolfannau yn y Parc Cenedlaethol (Dinbych-y-pysgod, Trefdraeth, Saundersfoot a Thyddewi) ond hefyd mae'r strategaeth yn gymorth i gynnal Canolfannau gwledig a chefn gwlad. Rhagwelir twf cyfyngedig yn y Canolfannau Gwledig, ac mae rhai mathau penodol o ddatblygiadau yn cael eu caniatáu yng nghefn gwlad, megis anheddau menter wledig ac addasu adeiladau.

Mae'r dulliau hyn yn cyd-fynd â Chynlluniau'r awdurdodau cyfagos. – Gweler y Diagram Allweddol sydd ynghlwm.

Polisi 8 Rhinweddau Arbennig (Polisi Strategaeth)

Rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol yw'r rhinweddau a'r nodweddion hynny sy'n gwneud y Parc Cenedlaethol yn unigryw. Y nod yw sicrhau bod datblygiadau yn gwarchod ac yn gwella'r rhinweddau hynny.

Polisi 20 Graddfa Twf (Polisi Strategaeth)

Mae graddfa'r twf a ragwelir yn gyfyngedig:

- Darperir tai'r farchnad agored i alluogi cyflenwi tai fforddiadwy. Mae'r twf yn y boblogaeth yn gostwng.
- Rhagwelir mai ar raddfa fach fydd cyflogaeth (llai na 2 hectar). Darperir ar gyfer safleoedd mwy y tu allan i ardal y Parc Cenedlaethol.
- O ystyried sensitifrwydd y dirwedd mae'r potensial yn bennaf ar gyfer cynigion ynni adnewyddadwy ar raddfa fach.
- Mae asesiadau o'r dirwedd yn dangos mai prin iawn yw'r cyfleoedd ar gyfer safleoedd carafanau a gwersylla newydd neu estynedig.
- Gall datblygiadau mwynau ond digwydd mewn amgylchiadau eithriadol.
- Bydd angen i gyfleusterau gwastraff wasanaethu'r Parc Cenedlaethol yn bennaf.
- Bydd datblygiadau ar yr arfordir yn gweld bod cysylltiad rhwng cyfleusterau ar y tir â chynigion ar y môr ac â'r gwaith o gynnal porthladdoedd. Nid yw polisi cenedlaethol yn annog datblygiadau marina.
- O ran siopa, mae Dinbych-y-pysgod, Saundersfoot, Tyddewi a Threfdraeth yn perfformio'n dda, a'r ymagwedd yw annog adfywio yn seiliedig ar anghenion y cymunedau lleol a'r ymwelwyr.

Polisi 29 Dylunio Cynaliadwy (Polisi Strategaeth)

Nod y polisi yw sicrhau bod datblygiadau yn fwy cynaliadwy o ran dyluniad erbyn 2031.

Polisi 33 Ynni Adnewyddadwy (Polisi Strategaeth)

Mae'r polisi yn cefnogi cynigion ynni adnewyddadwy sy'n parchu rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.

Polisi 34 Llifogydd a Llifogydd o'r Môr (Polisi Strategaeth)

Mae'r polisi yn ceisio cyfeirio datblygiadau i ffwrdd o ardaloedd mewn perygl o lifogydd, ac amddiffyn yr arfordir yn unol â'r Cynllun Rheoli Traethlin ar gyfer yr ardal.

Polisi 35 Economi Ymwelwyr (Polisi Strategaeth)

Mae'r polisi yn ceisio peidio ag ychwanegu yn sylweddol at lety i ymwelwyr ond sicrhau bod llety o safon ar gael ar gyfer amrywiaeth o bocedi gyda rhai lleiniau carafanau a gweryslla ychwanegol. Caniateir rhywfaint o hunanarlwyo lle nad oes blaenoriaeth i ddiwallu anghenion tai fforddiadwy. Mae atyniadau i ymwelwyr yn cael eu cyfeirio i'r Canolfannau â lleoliadau yng nghefn gwlad a neilltuir ar gyfer y rhai y mae lleoliad yng nghefn gwlad yn hanfodol iddynt.

Polisi 42 Safleoedd Cyflogaeth ac Unedau Byw/Gwaith (Polisi Strategaeth)

Mae cynigion cyflogaeth ar raddfa fach (llai na 2 hectar) yn cael eu hannog o fewn a gerllaw Canolfannau. Cefnogir estyniadau i fusnesau a'r angen i uno clystyrau presennol o gyflogaeth yng nghefn gwlad.

Polisi 44 Tai (Polisi Strategaeth)

Darperir tai er mwyn bod o gymorth i ddarparu tai fforddiadwy. Y ffocws yw a ellir darparu tai fforddiadwy, a sut fydd y datblygiad yn gweddu i'r dirwedd. Bydd lefel y ddarpariaeth yn cael ei nodi yn y Cynllun Datblygu Lleol Adnewid. Disgwylir i'r dwyseddau fod yn 30 annedd yr hectar lle mae hyn yn gweddu i'r Canolfannau.

Policy 45 Tai Fforddiadwy (Polisi Strategaeth)

Mae'r polisi yn clustnodi ardaloedd tai'r farchnad agored yn ôl ardaloedd cod post lle mae disgwyl i dai fforddiadwy gael eu darparu ar safle neu lle bo cyfraniad ariannol yn cael ei wneud tuag at ddarparu tai fforddiadwy.

Mae'r tabl isod yn dangos y canrannau o dai fforddiadwy a ddisgwylir. Mae wyth rhes, un am bob un o'r ardaloedd is-farchnad tai, a phum colofn. Mae'r golofn gyntaf yn rhestru'r ardaloedd is-farchnad tai; mae'r ail yn nodi pa ardaloedd cod post sy'n cael eu cynnwys; mae'r drydedd yn nodi pa Ganolfannau Lleol sydd yn yr ardal is-farchnad tai; a'r bedwaredd pa Ganolfannau

Gwledig sydd yn yr ardal is-farchnad tai, ac mae'r golofn olaf yn dangos y canran o dai fforddiadwy a ddisgwylir.

Ardal Is-farchnad Tai	Ardal Cod Post	Canolfan Leol	Canolfan Wledig	% o dai fforddiadwy
Trefdraeth	SA42 0	Trefdraeth	Dinas Nanhyfer	50%
Dinbych-y-pysgod	SA70 7	Dinbych-y-pysgod	Jameston Lydstep, Milton, Maenorbÿr, Gorsaf Maenorbÿr	50%
Arfordir y De Ddwyrain	SA69 9 SA70 8 SA67 8	Saundersfoot, Dinbych-y-pysgod	Amroth Jameston Milton New Hedges Pleasant Valley Summerhill	45%
Tyddewi ac Arfordir y Gogledd	SA62 6 SA64 0 SA62 5	Tyddewi	Y Garn, Niwgwyl, Solfach, Trefin, Square and Compass	30%
Arfordir y De Orllewin	SA71 5	Amherthnasol	Angle Bosherton Ystagbwl	20%
Bae Sain Ffraid	SA62 3 SA73 3	Amherthnasol	Aber Bach Aber Llydan Dale Marloes St Ismael Herbrandston	15%
Cefnwlad yr Aber	SA68 0 SA62 4 SA73 1 SA72 4	Amherthnasol	Cosheston Hook Lawrenni Llangwm Houghton	10%
Parc Cenedlaethol y Gogledd Ddwyrain	SA65 9 SA43 3 SA41 3 SA63 4 SA66 7	Crymych	Felindre Farchog Pont-faen Rhos-y-bwlch	10%

Polisi 48 Cyfleusterau Cymunedol a Gofynion Seilwaith (Polisi Strategaeth)

Mae'r polisi hwn yn cefnogi darparu cyfleusterau newydd i wasanaethu anghenion y defnyddiwr, yn diogelu cyfleusterau cymunedol oni bai nad oes eu hangen mwyach neu y gellir

eu darparu mewn ffordd arall, ac yn sicrhau bod datblygiad yn cael ei wneud yn dderbyniol drwy wneud trefniadau ar gyfer unrhyw gyfleusterau cymunedol a seilwaith sydd eu hangen.

Polisi 49 Manwerthu yn y Parc Cenedlaethol (Polisi Strategaeth)

Manwerthu yn y Parc Cenedlaethol (Polisi Strategaeth)

Polisi 52 Trafnidiaeth Gynaliadwy (Polisi Strategaeth)

Nod y polisi yw annog gwell rheolaeth ar draffig, annog teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus, a sicrhau bod datblygiadau yn cael eu dylunio'n dda o ran cael mynediad i safle.

Polisiâu Manwl

Mae'r polisiâu strategaeth yn cael eu hategu gan y polisiâu mwy manwl canlynol..

Rhinweddau Arbennig

Polisi 9	Llygredd golau
Polisi 10	Safleoedd Lleol Cadwraeth Natur neu o Ddiddordeb Daearegol
Polisi 11	Diogelu Bioamrywiaeth
Polisi 12	Yr Iaith Gymraeg
Polisi 14	Gwarchod Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol
Polisi 15	Cadwraeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Polisi 16	Mannau Agored a Lletemau Glas
Polisi 17	Cyfleusterau ar y Glannau
Polisi 18	Harbwr Porth-gain, Saundersfoot, Solfach a Dinbych-y-pysgod

Datblygiad Mawr, y Potensial ar gyfer Twf

Polisi 19	Gosodiadau peryglus
Polisi 21	Diogelu Mwynau
Polisi 22	Clustogfeydd
Polisi 23	Pyllau benthyg
Polisi 24	Cerrig Adeiladu Lleol
Polisi 25	Deunydd wedi'i Ailgylchu, Deunydd Eilaidd a Gwastraff
Polisi 26	Safleoedd Mwynau Anweithgar
Polisi 27	Cyfleusterau Lleol Rheoli Gwastraff
Polisi 28	Compostio

Newid yn yr Hinsawdd, Dylunio Cynaliadwy, Llifogydd, Ynni Cynaliadwy

Polisi 30	Amwynde
Polisi 31	Lleihau Gwastraff
Polisi 32	Draenio Dŵr Wyneb
Polisi 43A	Datblygu yn yr Ardal Rheoli Parth Arfordirol (To do)

Polisi 43B	Adleoli anheddau parhaol presennol a effeithir gan newid ar yr arfordir (To do)
Polisi 43C	Adleoli a newid datblygiad (heblaw am ddatblygiad preswyl) a effeithir gan newid ar yr arfordir (To do)

Economi Ymwelwyr, Cyflogaeth

Polisi 36	Colli Gwestai a Gwestai Bach
Polisi 37	Datblygiad Hunanarlwyo
Polisi 38A	Datblygiad Carafanau, Gwersylla a Chabanau
Polisi 40	Cyfleusterau ar Safleoedd Pebyll, Cabanau a Charafanau
Polisi 43	Diogelu Safleoedd ac Adeiladau Cyflogaeth
Polisi 43A	Arallgyfeirio amaethyddol

Tai Fforddiadwy a Thai

Polisi 46	Safleoedd Sipsiwn
Polisi 47	Datblygiad Un Blaned

Cyfleusterau Cymunedol, Manwerthu, Trafnidiaeth

Polisi 50	Canolfannau Siopa mewn Trefi a'r Cyffiniau
Polisi 51	Canolfannau garddio
Polisi 53	Effeithiau Traffig
Polisi 54	Llwybrau Beicio
Polisi 55	Llinellau trydan a Phiblinellau
Polisi 56	Telathrebu

Safleoedd Ymgeisiol

Fel rhan o gasglu tystiolaeth i lywio'r Cynllun newydd, mae'r Awdurdod wedi gwahodd y cyhoedd, tiffeddianwyr a datblygwyr i gyflwyno manylion y safleoedd y maent yn dymuno iddynt gael eu hystyried ar gyfer unrhyw ddefnydd neu ailddefnydd. Cyfeirir at y safleoedd a glustnodwyd fel Safleoedd Ymgeisiol, a gellid eu henwebu ar gyfer defnydd tir penodol, gan gynnwys:

- Tai (gan gynnwys tai fforddiadwy)
- Cyflogaeth
- Manwerthu
- Masnachol
- H amdden/adloniant
- Llety Sipsiwn a Theithwyr
- Cynigion defnydd cymysg.

Mae'r Safleoedd Ymgeisiol wedi cael eu hasesu i weld pa mor addas ydynt i'w datblygu, ac mae Cofrestr o Safleoedd Ymgeisiol wedi'i chyhoeddi (**To do**):

web page: xxx for further information/ Gweler tudalen ar y we: **xxx** am ragor o wybodaeth

Monitro Blynyddol ac Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol ar y Cynllun Datblygu Lleol i Lywodraeth Cymru fis Hydref bob blwyddyn yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun; bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi pob Adroddiad Monitro Blynyddol. Diben yr Adroddiad Monitro Blynyddol yw rhoi cyfle i adolygu'r camau ymlaen a gymerwyd o ran gweithredu'r polisiau ac i alluogi'r Awdurdod glustnodi a gwneud addasiadau i'r Cynllun Datblygu Lleol lle bo'n briodol.

Canllawiau Cynllunio Atodol

Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn cynnwys dogfennau a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol sy'n rhoi arweiniad manwl pellach ar sut y dylai polisiau a chynigion yn y Cynllun Datblygu Lleol gael eu hystyried wrth wneud a phenderfynu ar geisiadau cynllunio.

Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol canlynol a fabwysiadwyd yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Cynllun Datblygu Lleol newydd pan gaiff hwnnw ei fabwysiadu.

Teitl

Hygyrchedd

Tai Fforddiadwy (Canllawiau Newydd)

Archaeoleg

Gwaith Glo - Ansefydlogrwydd

Cynigion Ardal Gadwraeth

Tirwedd

Colli Gwestai

Datblygiad Un Blaned (Datblygiad Effaith Isel)

Parci

Rhwymedigaethau cynllunio

Hamdden

Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol

Ynni adnewyddadwy

Diogelu Parthau Mwynau

Cymeriad y morwedd

Dylunio Blaen Siop

Lleoliad a Dyluniad Adeiladau Fferm

Dylunio cynaliadwy

Effaith Gronnol Tyrbinau Gwynt

Hwyluso Datblygu Cynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru

Mae'r Awdurdod yn bwriadu paratoi'r canllawiau canlynol.

Teitl

I'w wneud - Canllawiau Cynllunio Atodol ar Fioamrywiaeth

I'w wneud - Carafanau a Gwersylla

I'w wneud - Canllawiau Cynllunio Atodol ar Oleuadau

**Am ragor o wybodaeth, cysyllter â Thîm Cyfarwyddyd y Parc yn
Cyfarwyddyd y Parc**

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Parc Llanion

Doc Penfro

Sir Benfro

SA72 6DY

E-bost: devplans@pembrokeshirecoast.org.uk

Rhif ffôn: 01646 624800

Diagram Allweddio

- Main Settlement/
Prif Aneidiadau
- Local Service & Tourism Centre/
Canolfan Wasanaeth a Thwristiaeth Leol
- Local Centre/
Canolfan Leol
- Rural Centre/
Canolfan Gwledig
- A Road / Ffyrdd 'A'
- Trunk Road / Rhydwaith o Brif Ffyrdd
- Trans-European Road Network /
Rhydwaith o Ffyrdd Traws-Ewropeaidd
- +— Railway / Rheilffordd
- ✈ Airfield / Maes Awyr
- 🚢 Ferry (Rosslare, Ireland) /
Fferi (Rosslare, Iwerddon)
- ▭ National Nature Reserve /
Gwarchodfa Natur Forol
- ▭ Marine Conservation Zone /
Parthau Cadwraeth Morol
- ▭ Neighbouring Planning Authority Area /
Ardal Awdurdod Cynllunio Cyfagos
- ▭ Natura 2000 site/
Safleddoedd Bywyd Gwylt Rhyngwladol
- ▭ Pembrokeshire Coast National Park /
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- ▭ Wales Spatial Plan Strategic Hub /
Cynllun Gofodol Cymru - Canolfan Strategol

0 5 10 km

